## DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

## GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (YR A4119 LLANTRISANT ROAD, CAERDYDD, DATBLYGIAD PLASDŴR) 2022

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf 1990") i awdurdodi cau'r darn o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Nid awdurdodir cau'r briffordd ond er mwyn gwneud y datblygiad yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran 3 o Ddeddf 1990 gan Gyngor Caerdydd ar 20 Mawrth 2017 o dan y cyfeirnod 14/02733/MJR ac a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn.

Bydd Gorchymyn Cau Priffyrdd (Yr A4119 Llantrisant Road, Caerdydd, Datblygiad Plasdŵr) 2022 ("y Gorchymyn") yn peidio â chael effaith os daw'r caniatâd cynllunio mewn cysylltiad â'r datblygiad i ben neu os caiff ei ddirymu.

Gellir edrych ar gopïau o'r Gorchymyn a'r plan a adneuwyd yn rhad ac am ddim yn ystod oriau swyddfa arferol yn swyddfeydd Hyb y Llyfrgell Ganolog, Yr Aes, Caerdydd CF10 1FL neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1547937.

Caiff unrhyw berson a dramgwyddir gan y Gorchymyn, ar y sail:

a. nad yw o fewn pwerau Deddf 1990; neu

b. na chydymffurfiwyd ag un o ofynion gweithdrefnol Deddf 1990;

o fewn 6 wythnos i 4 Hydref 2022, wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwnnw.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-cau.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990

## THE STOPPING UP OF HIGHWAYS (A4119 LLANTRISANT ROAD, CARDIFF, PLASDŴR DEVELOPMENT) ORDER 2022

The Welsh Ministers have made an Order under section 247 of the Town and Country Planning Act 1990 ("the 1990 Act") to authorise the stopping up of the length of highway described in Schedule 1 to this Notice. The stopping up will be authorised only in order to enable the development to be carried out in accordance with planning permission granted under Part 3 of the 1990 Act by Cardiff Council on 20 March 2017 with reference number 14/02733/MJR described in Schedule 2 to this Notice.

The Stopping Up of Highways (A4119 Llantrisant Road, Cardiff, Plasdŵr Development) Order 2022 ("the Order") ceases to have effect if planning permission in respect of the development expires or is revoked.

Copies of the Order and the deposited plan may be inspected free of charge during normal office hours at Central Library Hub, The Hayes, Cardiff, CF10 1FL or may be obtained free of charge from the address below quoting reference qA1547937.

If a person is aggrieved by the Order, on the grounds that:

a. it is not within the powers of the 1990 Act; or

b. a procedural requirement of the 1990 Act has not been complied with;

that person may, within 6 weeks of 4 October 2022 make an application for the purpose to the High Court.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/stopping-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government

## ATODLEN 1
**(Bras amcan yw pob mesuriad)**

**Y darnau o briffordd sydd i'w cau**

1. Darn afreolaidd ei siâp o briffordd ar ochr ogleddol yr A4119 Llantrisant Road o'r gylchfan sy'n arwain at Glos Parc Radur i gyfeiriad y gogledd-orllewin, sy'n 154 o fetrau yn y man hiraf ac yn 6 metr yn y man lletaf, fel a ddangosir â llinellau sebra ac y rhoddir y cyfeirnod A iddo ar blan a adneuwyd A.

2. Darn afreolaidd ei siâp o briffordd ar ochr ogleddol yr A4119 Llantrisant Road i'r gorllewin o'i chyffordd â Thŷ Gwyn Lane, sy'n 12 o fetrau yn y man hiraf ac yn 2 fetr yn y man lletaf, fel a ddangosir â llinellau sebra ac y rhoddir y cyfeirnod B iddo ar blan a adneuwyd B.

3. Darn afreolaidd ei siâp o briffordd ar ochr ogleddol yr A4119 Llantrisant Road i'r dwyrain o'i chyffordd â Thŷ Gwyn Lane, sy'n 9 metr yn y man hiraf ac yn 2 fetr yn y man lletaf, fel a ddangosir â llinellau sebra ac y rhoddir y cyfeirnod C iddo ar blan a adneuwyd B.

## SCHEDULE 1
**(All measurements are approximate)**

**Lengths of highway to be stopped up**

1. An irregular shaped length of highway, located on the northern side of the A4119 Llantrisant Road from the roundabout leading to Clos Parc Radur travelling in a north-westerly direction, with a maximum length of 154 metres, and a maximum width of 6 metres, as shown by zebra hatching and given the reference A on the deposited plan A

2. An irregular shaped length of highway, located on the northern side of the A4119 Llantrisant Road west of it junction with Tŷ Gwyn Lane with a maximum length of 12 metres, and a maximum width of 2 metres, as shown by zebra hatching and given the reference B on the deposited plan B.

3. An irregular shaped length of highway, located on the northern side of the A4119 Llantrisant Road east of it junction with Tŷ Gwyn Lane with a maximum length of 9 metres, and a maximum width of 2 metres, as shown by zebra hatching and given the reference C on the deposited plan B.

## ATODLEN 2

**Y Datblygiad**

Adeiladu hyd at 5,970 o unedau preswyl (gan gynnwys cartrefi fforddiadwy); 3 chanolfan leol yn darparu unedau preswyl, siopau cyfleustra a chyfleusterau/gwasanaethau ac 1 ganolfan ardal yn darparu unedau preswyl, gan gynnwys hyd at ddwy siop fwyd gyda lleoedd parcio cysylltiedig, cyfleusterau cymunedol a gofal iechyd yn y ganolfan ardal a'r canolfannau lleol, darpariaeth ar gyfer 3 ysgol gynradd ac 1 ysgol uwchradd; tir agored gan gynnwys rhandiroedd; parciau; mannau gwyrdd naturiol a lled naturiol; mannau gwyrdd amwynder; cyfleusterau i blant a phobl ifanc; darpariaeth ar gyfer chwaraeon awyr agored gan gynnwys meysydd chwarae; gwaith seilwaith a pheirianneg cysylltiedig gan gynnwys mynedfeydd newydd i gerbydau, gwelliannau i'r rhwydwaith priffyrdd presennol, ffyrdd newydd, llwybrau troed/beicio, coridor trafnidiaeth strategol neilltuedig; hyd at 1 brif is-orsaf trydan a gwaith tirlunio.

## SCHEDULE 2

**The Development**

Construction of up to 5,970 residential units (including affordable homes); 3 no. local centres providing residential units, convenience shops and facilities/services and 1 no. district centre providing residential units, including up to two food stores with associated parking, provision of community and healthcare facilities across the district and local centres, provision for 3 no. primary schools and 1no. secondary school; open space including allotments; parks; natural and semi natural green space; amenity green spaces; facilities for children and young people; outdoor sports provision including playing pitches; associated infrastructure and engineering works including new vehicular accesses, improvement works to the existing highway network, new roads, footpaths/cycleways, a reserved strategic transport corridor; up to 1 no. electricity primary-substation and landscaping works.